

DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

17^{eg} Mai 2024

(see below for English)

**YOD
DYFO**

DYFODOL I'R IAITH - ACHOS PELLACH O GOSB PARCIO UNIAITH SAESNEG

Mae Dyfodol i'r iaith yn hynod siomedig bod achos pellach o gwmni parcio ceir yn dangos amharchu llwyr i'r Gymraeg.

Cysylltodd Gwen Williams â ni ar ôl cael hysbysiad cosb parcio yng ngwesty 'Yr Eryrod' yn Llanrwst canol mis Rhagfyr 2023. 6 wythnos yn ddiweddarach derbyniodd gosb parcio uniaith Saesneg am £60 gan Smart Parking Ltd.

Meddai Gwen Williams,

"Mae'n bwysig nodi fy mod i wedi esbonio trwy'r amser fy mod am dalu'r ddirwy pe byddai'n cael ei gyfieithu ac awgrymais sawl un allai wneud hynny iddynt ond collais yr apêl.

Os byddaf yn penderfynu talu'r ddirwy ai peidio, mi fyddaf yn parhau i ymgyrchu dros arwyddion a hysbysiau cosb dwyieithog drwy lobio'r awdurdodau sydd â'r pŵer a'r cyfle i wella'r gyfraith. Nid yw Mesur yr iaith Gymraeg 2011 a'r safonau iaith yn mynd yn ddigon pell i hyrwyddo dwyieithrwydd yn y sector preifat.

Pryder arall yw'r elwa a wna gwmnïau o Loegr yma yn Nghymru. Lle mae cwmnïau parcio Cymru? A lle mae'r elw yn dod i ben? Dw i ddim yn meddwl yng Nghymru. Pam nad yw Gweinidog yr Economi yn ceisio annog busnesau Cymru i gychwyn cwmnïau o'r fath yng Nghymru? Pa effaith mae gweithredu fel hyn yn ei gael ar dwristiaeth? Os oes rhaid i ni dalu dirwyon am barcio fe ddylai fod ar ein telerau ein hunain a dylai'r arian aros yng Nghymru."

Meddai Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r iaith:

"Dyma ni yn 2024, a Chymru yn cofnodi chwarter canrif o ddatganoli a'r grym cyfreithiol ganddom ni dros ddyfodol y Gymraeg. Mae'n anodd credu felly fod y cwmnïau hyn yn gallu bod mor amharchus o'r Gymraeg a dilornus o gwsmeriaid sy'n dymuno derbyn y gwasanaeth mwyaf sylfaenol yn eu dewis iaith. A hynny er gwaethaf y ffaith fod cynllun 'Helo Blod' yn cynnig gwasanaeth cyfieithu am ddim i gwmnïau sector preifat. Mae'n hwyr glas i'r Llywodraeth gydnabod unai bod angen cyflymu'r broses o enwi sectorau fydd yn dilyn safonau iaith neu alluogi Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i wneud hynny heb orfod cyflwyno hysbysiad gerbron llawr y Senedd. Ar hyn o bryd mae'r daith honno yn cymryd oddeutu 18 mis cyn wedyn cychwyn ar y daith o drafod, cytuno a mabwysiadu cyfres o safonau iaith statudol gyda corff unigol. Oni wneir hyn yna mae'n gwbl amlwg nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn gweithio a bod angen llunio mesur sy'n gwarantu hawliau ieithyddol cyfartal i siaradwyr Cymraeg a gaiff ei weithredu yn llwyr gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn rhydd o ymyrraeth gwleidyddol. Dyna oedd un o gryfderau Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth weithredu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Pa werth yw annog a hyrwyddo'r iaith tra'n bod ni'n clywed yn gynyddol am enghreifftiau o gwmnïau sector preifat yn gwrthod neu'n fwriadol ddirwyn eu gwasanaeth Cymraeg i ben - banc 'HSBC', cwmni cyfleustodau 'OVO' a sawl cwmni parcio preifat? Faint yn fwy o hyn sydd rhaid i bobl ei oddef? Pa werth sydd i darged o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 os nad oes hawliau sylfaenol ganddynt i'w defnyddio yn 2024?"

Rydym felly yn galw ar y gwleidyddion yng Nghaerdydd i drafod y mater yma ar frys ar lawr y Senedd er mwyn rhoi neges clir fod pob sector sy'n weithredol yng Nghymru angen rhoi parch ieithyddol i'w holl gwsmeriaid. Fel arall bydd y drefn yn parhau lle mae siaradwyr Cymraeg yn dal i gael eu trin fel dinasyddion eilradd yng Nghymru."

- DIWEDD -

Am fanylion pellach cysylltwch â Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r laith ar 07989393445 neu dylanbryn@dyfodol.net neu Heini Gruffudd, Cadeirydd, 01792 455410, 07983 506805, heini@gruffudd.org

Dyfodol i'r laith

- Mae Dyfodol i'r laith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles y Gymraeg
- Ei nod yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg.

DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

17th May 2024

**TOB
DYFO**

DYFODOL I'R IAITH – ANOTHER CASE OF ENGLISH-ONLY PARKING PENALTY

Dyfodol i'r iaith is extremely disappointed that a further case of a car parking company showing complete disrespect for the Welsh language.

Gwen Williams contacted us after failing to receive a Welsh medium parking penalty notice at the 'Eagles hotel' in Llanrwst in mid-December 2023. 6 weeks later he received an English-only parking penalty for £60 from Smart Parking Ltd.

Gwen Williams said,

"It is important to note that I explained throughout that I wanted to pay the fine if it was translated and I suggested how many people could do it for them but I lost the appeal.

Whether I decide to pay the fine or not, I will continue to campaign for bilingual penalty signs and notices by lobbying the authorities who have the power and opportunity to improve the law. The Welsh language Bill 2011 and the language standards do not go far enough to promote bilingualism in the private sector.

Another concern is the benefit that English companies get here in Wales. Where are Wales' parking companies? And where do the profits end? I don't think in Wales. Why isn't the Economy Minister trying to encourage Welsh businesses to start such companies in Wales? What impact does acting in this way have on tourism? If we have to pay fines for parking it should be on our own terms and the money should stay in Wales."

Dylan Bryn Roberts, Chief Executive of Dyfodol i'r iaith, said:

"Here we are in 2024, with Wales celebrating a quarter of a century of devolution and having the legal power over the future of the Welsh language. It is therefore hard to believe that these companies can be so disrespectful of the Welsh language and disparaging of customers who wish to receive the most basic service in their chosen language. This is despite the 'Hello Blod' scheme offering a free translation service to private sector companies. It is high time the Government recognises either the need to speed up the naming of sectors that will adhere to Welsh language standards or enable the Welsh Language Commissioner to do so without having to serve notice before the floor of the Senedd. That journey currently takes around 18 months before then embarking on the journey of discussing, agreeing and adopting a set of statutory language standards with an individual body. Unless this is done then it is quite clear that the present legislation is not working and that a new Welsh language measure be adopted which guarantees equal language rights to Welsh speakers. This should be implemented by the Welsh Language Commissioner free from political interference. That was one of the strengths of the Welsh Language Board when implementing the 1993 Welsh Language Act.

What value is there to encouraging and promoting the language while we are increasingly hearing of examples of private sector companies refusing or deliberately winding down their Welsh service – HSBC bank, utility company OVO and several private parking companies? How much more of this do people have to put up with? What value does having a target of a million Welsh speakers by 2050 if they do not have basic rights to use the language in 2024?

We therefore call on the politicians in Cardiff to urgently discuss this issue on the floor of the Senedd to give a clear message that all sectors conducting business in Wales need to provide linguistic respect to all their customers. Otherwise the situation will continue where Welsh speakers are still treated as second class citizens in Wales."

- ENDS -

For further information please contact Dylan Bryn Roberts, Chief Executive, Dyfodol i'r Iaith on 07989393445 or dylanbryn@dyfodol.net or Heini Gruffudd, Chair, 01792 455410, 07983 506805, heini@gruffudd.org

Dyfodol i'r Iaith

- Dyfodol i'r Iaith (A Future for the Language) is a non-political organisation that works for the promotion of the Welsh language.
- Its aim is to exert influence through constitutional means on the substance and content of public policies and legislation in order to promote and nurture the growth of the Welsh language.